**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

1 Tachwedd 2022

Annwyl Julie,

## Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Yn ein cyfarfod ar 27 Hydref, gwnaethom drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio. Er mwyn ein galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a ddylid argymell rhoi cydsyniad ai peidio, byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth mewn dau faes yn benodol.

Yn gyntaf, nodwn fod cymal 187 (crwydraeth a chardota) yn ddarpariaeth "cadw lle", felly nid yw'n glir eto a yw'n ddarpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 ai peidio. Mae'r Memorandwm yn nodi bod eglurder yn cael ei geisio mewn perthynas â chymal 187 gan nad yw'r tabl cymhwyso yn yr Atodiad i'r Nodiadau Esboniadol yn nodi nad yw'n gymwys o ran Cymru; fodd bynnag, nid yw'r cymal, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn cyfyngu ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n gymwys o ran Lloegr yn unig. Fel y gallwch werthfawrogi, mae'n siŵr, ni fyddwn mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ynghylch cydsyniad deddfwriaethol hyd nes y bydd cymal 187 yn cael ei ddisodli gan ddarpariaeth o sylwedd ac y gellir rhoi eglurder ynghylch ei gymhwyso. Gan hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a gynhaliwyd unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â chymal 187.

Yn ail, nodwn fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dweud:

> *Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd gan y Bil cyffredinol oblygiadau ariannol i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, y llywodraeth ganolog a'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd cydbwysedd rhwng y costau hyn a'r arbedion effeithlonrwydd.*

Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm yn cyfeirio o gwbl at safbwynt Llywodraeth Cymru ar oblygiadau ariannol y Bil hwn. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe gallech amlinellu eich safbwynt ar oblygiadau ariannol y Bil i Gymru.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 10 Tachwedd fel y gallwn ei ystyried wrth drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 16 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.